



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Diweddariad chwarterol Ystadegau Cymru: Medi 2022

Diweddariad Medi 2022 ar gyfer defnyddwyr ystadegau Cymru ynghylch ein datblygiadau diweddaraf, ymgynghoriadau a chynlluniau.

Cyhoeddwyd gyntaf: 30 Medi 2022

Diweddarwyd ddiwethaf: 30 Medi 2022

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cynnwys

Ymateb i'r coronafeirws (COVID-19)

Yr economi a'r farchnad lafur

Addysg

Tai

Iechyd a gwasanaethau cymdeithasol

Ymchwil Data Gweinyddol Cymru

Llesiant Cymru

Arolwg Cenedlaethol Cymru

Cyfiawnder cymdeithasol

Cydraddoldeb

Masnach

Trafnidiaeth

Y Gymraeg

Amaethyddiaeth a'r amgylchedd

Poblogaeth a demograffeg

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Cysylltiadau ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Dyma'r diweddaraf mewn cyfres o ddiweddariadau chwarterol, ar gyfer defnyddwyr ystadegau yng Nghymru, ar ein datblygiadau, ein hymgyngoriadau a'n cynlluniau diweddaraf.

Gellir gweld rhestr lawn o'n cyhoeddiadau mwyaf diweddar ar ein [calendr i ddod](#).

## Ymateb i'r coronafeirws (COVID-19)

Yn ystod mis Mawrth 2022, cyhoeddwyd y cynllun [Gyda'n gilydd tuag at ddyfodol mwy diogel: COVID-19 – Cynllun pontio hirdymor Cymru o bandemig i endemig](#). Mae'r cynllun hwn yn esbonio bod y cysylltiad rhwng dal yr haint COVID-19, salwch difrifol, derbyniadau i'r ysbyty a marwolaeth wedi'i wanhau'n sylweddol. Golyga hyn y gallwn ddechrau symud y tu hwnt i'r ymateb brys i'r pandemig a chynllunio ar gyfer dyfodol pan fyddwn yn pontio'n raddol i fyw'n ddiogel gyda'r coronafeirws.

Yn unol â'r cynllun hwn, rydym wedi parhau i adolygu ein hallbynnau COVID-19 ac rydym wedi rhoi'r gorau i gyhoeddi llawer ohonynt, neu wedi lleihau eu hamlder, gan gynnwys rhoi'r gorau i ddiweddarau dangosfwrdd rhyngweithiol [COVID-19 yng Nghymru](#) y chwarter hwn. Mae cynnwys tebyg i'r hyn a gasglwyd ar COVID-19 ar ddangosfwrdd Cymru yn dal i gael ei ddiweddarau gan lechyd Cyhoeddus Cymru ar [ddangosfyrddau gwylidwriaeth Coronafeirws \(COVID-19\) \(lechyd Cyhoeddus Cymru\)](#).

Rydym wedi parhau hefyd i gadw'r allbynnau allweddol a sicrhau bod data yn parhau ar gael ar amlder priodol drwy [StatsCymru](#). Mae trosolwg o ddangosyddion COVID-19 ar gael ar ein tudalen [ymchwil ac ystadegau cysylltiedig â coronafeirws \(COVID-19\)](#).

Mae croeso i chi anfon unrhyw sylwadau neu adborth ar y ffordd rydych yn

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

defnyddio'r datganiadau, ac unrhyw awgrymiadau ar gyfer eu newid, drwy e-bostio [KAS.COVID19@llyw.cymru](mailto:KAS.COVID19@llyw.cymru)

## Yr economi a'r farchnad lafur

Rydym yn parhau i gyhoeddi ein datganiad misol **trosolwg o'r farchnad lafur**, sy'n dod ag amrywiaeth o wahanol ffynonellau mewn perthynas â'r farchnad lafur ynghyd er mwyn rhoi'r darlun diweddaraf o'r effaith y mae COVID-19 a digwyddiadau eraill yn parhau i'w chael ar y farchnad lafur. Mae ein **dangosfwrdd Economi Cymru mewn rhifau** wedi cael ei ddiweddarau hefyd.

Ym mis Gorffennaf, diweddarwyd ein **dangosyddion allbwn tymor byr** i gwmpasu chwarter cyntaf 2022, yn ogystal â chyhoeddi amcangyfrifon o **gynhyrchiant is-ranbarthol** ar gyfer 2020.

Cyhoeddwyd hefyd am y tro cyntaf ym mis Gorffennaf ddata o'r arolwg blynyddol o oriau ac enillion ar gyfran y swyddi gweithwyr y mae eu cyflog wedi'i osod gan gyfeirio at gytundeb ar y cyd ar gyfer gwledydd a rhanbarthau'r DU. Cyhoeddwyd y data yma ar **StatsCymru** ac mae'n cwmpasu 2012 i 2021.

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch [ystadegau.economi@llyw.cymru](mailto:ystadegau.economi@llyw.cymru).

## Tablau mewnbwn allbwn

Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi cytuno i ariannu rhaglen waith ar gyfer gwella ystadegau economaidd Cymru, gan gynnwys datblygu Tablau Mewnbwn Allbwn i Gymru dros y tair blynedd nesaf. Fel rhan o'r gwaith hwn, hoffem ddeall yn well beth yw'r angen am dablau o'r fath ymhlith defnyddwyr allanol ehangach— byddwn yn cysylltu â defnyddwyr a rhanddeiliaid yn

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

ddiweddarach eleni.

I gael rhagor o wybodaeth, e-bostiwch [ystadegau.masnach@llyw.cymru](mailto:ystadegau.masnach@llyw.cymru).

## Addysg

## Ysgolion

Gwnaethom barhau i gyhoeddi data wythnosol ar **bresenoldeb disgyblion mewn ysgolion a gynhelir** drwy gydol tymor yr haf. Bydd y datganiad wythnosol yn aildechrau yn yr hydref, a bwriedir cyhoeddi'r datganiad cyntaf ar 14 Medi.

Ni chafodd unrhyw gyhoeddiadau ystadegol eraill eu cyhoeddi ym mis Mehefin a mis Gorffennaf. Bydd nifer o ddatganiadau ystadegol yn cael eu cyhoeddi yn yr hydref, gan gynnwys un wrth i ddisgyblion ddechrau yn yr ysgol ac asesiadau athrawon ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, wedi iddynt gael eu hatal dros dro yn ystod y pandemig.

Mae'r dyddiadau cyhoeddi canlynol wedi eu cyhoeddi ymlaen llaw:

- **Canlyniadau'r Cyfrifiad Ysgolion ar gyfer mis Chwefror 2022** ar 31 Awst
- **Disgyblion sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol: Medi 2021 i Awst 2022** ar 8 Medi
- **Cyflawniad academaidd disgyblion mewn asesiadau dechreuol ac yng Nghyfnod Allweddol 3: 2022** ar 28 Medi
- **Canlyniadau arholiadau** ar 6 Hydref

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os hoffech roi adborth, gallwch gysylltu â ni yn [ystadegau.ysgolion@llyw.cymru](mailto:ystadegau.ysgolion@llyw.cymru).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Addysg drawsbynciol ac addysg ôl-16

Mae data dros dro ar [raglenni dysgu prentisiaethau a ddechreuwyd](#) ar gyfer dau chwarter cyntaf blwyddyn academaidd 2021/22 wedi eu cyhoeddi erbyn hyn drwy ein dangosfwrdd rhagweithiol ac ar StatsCymru.

Ym mis Gorffennaf, cyhoeddwyd casgliad cynhwysfawr o [ystadegau dysgu ôl-16 yn ôl grŵp ethnig y dysgwyr](#). Mae'n cwmpasu cyfranogiad mewn addysg ôl-16 a deilliannau dysgwyr, a bydd yn cyfuno dadansoddiad newydd â'r hyn a gyhoeddwyd eisoes fel rhan o'n datganiadau ystadegol eraill. Mae'r adroddiad yn nodi'r ystadegau sylfaenol ar ddysgu ôl-16 ar gyfer dysgwyr o wahanol gefndiroedd ethnig er mwyn gallu canfod anghydraddoldebau, a'u monitro, yn y dyfodol. Rydym wedi ymrwymo i ymgorffori'r dadansoddiad newydd yn ein datganiadau ystadegol rheolaidd ar ddysgu ôl-16.

Er mwyn rhoi adborth, neu am ragor o wybodaeth, e-bostiwch [ystadegau.addysgol16@llyw.cymru](mailto:ystadegau.addysgol16@llyw.cymru)

## Addysg uwch a chyllid myfyrwyr

Rydym wedi cyhoeddi ein bwletin diweddaraf ar [y Gymraeg mewn addysg uwch](#).

Er mwyn rhoi adborth, neu am unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch â'n blwch post AU a Chyllid i Fyfyrwyr: [addysguwchachyllidmyfyrwyr.yst@llyw.cymru](mailto:addysguwchachyllidmyfyrwyr.yst@llyw.cymru)

## Tai

Mae gwybodaeth reoli fisol am [ddarpariaeth llety digartrefedd a chysgu](#)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

**allan** yn parhau i gael ei chyhoeddi'n rheolaidd, ynghyd â data chwarterol a blyneddol ar gynllun **Cymorth i Brynu – Cymru (Cynllun Benthyciad Ecwiti a Rennir)**.

Hefyd, cafodd nifer o allbynnau ystadegau tai rheolaidd eu cyhoeddi ers mis Mehefin – roedd y rhain yn cynnwys:

- **Digartrefedd: Ebrill 2021 i Fawrth 2022**
- **Gwerthiannau Tai Landlordiaid Cymdeithasol: Ebrill 2021 i Fawrth 2022**
- **Adeiladu Tai Newydd: Ebrill 2021 i Farch 2022**

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn parhau i gyhoeddi data misol ar Fynegai Prisiau Tai ar gyfer Cymru, a **chyhoeddwyd (Cofrestrfa Tir EM)** (Saesneg yn unig) y diweddaraf o'r rhain (ar gyfer mis Mehefin 2022) ar 17 Awst 2022 ochr yn ochr â **data ar gyfer gweddill y DU (ONS)** (Saesneg yn unig).

Mae data ar y **Dreth Trafodiadau Tir** yn dal i gael eu cyhoeddi'n rheolaidd gan Awdurdod Cyllid Cymru.

Cysylltwch â ni drwy flwch post [ystadegau.tai@llyw.cymru](mailto:ystadegau.tai@llyw.cymru) os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu geisiadau.

## Amodau Tai a Thlodi Tanwydd

Yn y diweddariad chwarterol diwethaf, darparwyd gwybodaeth am **amcangyfrifon tlodi tanwydd newydd wedi'u modelu fel ag yr oeddent ym mis Hydref 2021**. Byddwn yn cyhoeddi dadansoddiad manylach o'r data yma yn ystod y misoedd nesaf er mwyn rhoi mwy o wybodaeth am bwy sy'n cael ei effeithio gan dlodi tanwydd. Bydd adroddiad methodoleg fanwl yn cyd-fynd â hyn.

Mae gwaith yn parhau i ddatblygu dangosfwrdd tlodi tanwydd i ddod ag ystod o

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



ddata sy'n berthnasol i dlodi tanwydd ynghyd

Rydym yn parhau i weithio gyda Thîm Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) i ddarparu cefnogaeth ddadansoddol wrth ddatblygu'r Safon ar ôl 2020. Mae'r ymgynghoriad ar y [safon arfaethedig nawr ar gau ac mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi](#).

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynllunio cyhoeddiad cyn hir sy'n rhoi gwybodaeth am ba ddata sydd ar gael ledled y DU am effeithlonrwydd ynni tai, gan ganolbwyntio ar wybodaeth a ddarperir drwy Dystysgrifau Perfformiad Ynni.

Mae gennym ddiddordeb mewn clywed eich awgrymiadau ar gyfer prosiectau dadansoddol sy'n ymwneud ag amodau tai, awgrymiadau ar gyfer ffynonellau i ymchwilio iddynt, neu os oes gennych ddiddordeb mewn cael gafael ar ddata sydd gennym eisoes ar gyfer prosiectau ymchwil. Cysylltwch â ni drwy'r blwch post ([ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru](mailto:ystadegau.cyflwrtai@llyw.cymru)) os bydd gennych unrhyw ymholiadau, ceisiadau neu fewnbwn mewn perthynas ag unrhyw un o'r uchod.

## lechyd a gwasanaethau cymdeithasol

### Perfformiad a Gweithgareddau'r GIG

Rydym yn parhau i ddarparu diweddariadau misol ar weithgareddau'r GIG, ac yn eu gwella, gan gynnwys ein hallbynnau misol ar [berfformiad a gweithgaredd y GIG](#) mewn perthynas ag ambiwlansys, adrannau damweiniau ac achosion brys, atgyfeiriadau i apwyntiadau cyntaf fel cleifion allanol, profion diagnostig a therapïau, atgyfeiriadau i driniaeth a chanser. Yn y chwarter olaf, cafodd gwybodaeth reoli a oedd newydd ei chasglu ar gyfer nifer y cleifion unigol sydd ar restrau aros am driniaeth yng Nghymru, yn ogystal â nifer y llwybrau cleifion yr ydym yn parhau i adrodd arnynt, ei hychwanegu gennym.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Yng ngoleuni'r effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar weithgarwch y GIG ac ar lefelau perfformiad, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei **rhaglen i drawsnewid a moderneiddio gofal a gynlluniwyd a lleihau rhestrau aros yng Nghymru**. Mae'r cynllun hwn yn nodi nifer o uchelgeisiau allweddol i leihau amseroedd aros i bobl yng Nghymru. Y chwarter hwn hefyd, rydym wedi ymgorffori'r mesuriadau perfformiad hyn yn erbyn yr uchelgeisiau yn y datganiad ystadegol hwn ac ar StatsCymru.

## Gofal Sylfaenol a Gofal yn y Gymuned

Mewn ystadegau gofal sylfaenol a gofal yn y gymuned, ac yn dilyn datganiad ystadegol cynhwysfawr ar **y gweithlu meddygon teulu** y chwarter diwethaf, rydym wedi cyhoeddi erthygl ystadegol arall sy'n rhoi cipolwg newydd o ran **poblogaeth a gweithlu practisau ymarferwyr cyffredinol a gofal sylfaenol yn ôl lefel amddifadedd**. Cyhoeddwyd adroddiadau newydd ac wedi'u diweddarau ar gyfer **mamolaeth a genedigaethau, bwydo ar y fron** a **Rhaglen Plant Iach Cymru** y chwarter hwn hefyd.

## Ystadegau eraill lechyd a Gofal Cymdeithasol

Cyhoeddwyd data newydd gan Arolwg Cenedlaethol Cymru ar elfennau o iechyd y boblogaeth gan gynnwys **ffyrdd o fyw sy'n gysylltiedig ag iechyd ac ymddygiad oedolion** ac **iechyd cyffredinol a salwch ymhlith oedolion**.

Mae diweddariadau wedi bod i amrywiol agweddau eraill ar ystadegau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol y chwarter hwn hefyd, gan gynnwys data ar; **Gwasanaethau deintyddol y GIG, absenoldeb oherwydd salwch y GIG, staff a gyflogir gan y GIG, camddefnyddio sylweddau, mesurau gofal llygaid, ystadegau erthyliadau, cofrestrau awdurdodau lleol o bobl anabl, nifer y bobl a gadwyd o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, atgyfeiriadau ac amseroedd aros ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl** ac **amseroedd aros**

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## am apwyntiad cyntaf Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed arbenigol.

Mae ein holl ddatganiadau ystadegol ar gael ar y [wefan Ystadegau ac ymchwil](#) ac mae data sylfaenol manylach ar gael yn yr adran Iechyd a gofal cymdeithasol o [StatsCymru](#).

I gael rhagor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwch [ystadegau.iechyd@llyw.cymru](mailto:ystadegau.iechyd@llyw.cymru).

## Ymchwil Data Gweinyddol Cymru

Rydym wedi parhau i ddatblygu ein cynllun ymchwil grant craidd ar gyfer rhaglen ymchwil newydd Ymchwil Data Gweinyddol Cymru ar gyfer 2022-2026. Mae hyn wedi cynnwys ymgynghori ag amrywiaeth eang o feysydd polisi a rhanddeiliaid. Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein cynllun cyn ein digwyddiad lansio Ymchwil Data Gweinyddol Cymru cyn diwedd 2022. Bydd yn darparu rhagor o fanylion am feysydd thema ein hymchwil:

- Newid hinsawdd
- Addysg
- Y blynyddoedd cynnar
- Tai
- Iechyd meddwl
- Sgiliau a chyflogadwyedd
- Gofal cymdeithasol
- PANDAR (COVID-19)
- Llesiant
- Cyfiawnder Cymdeithasol

Rydym wedi parhau i gefnogi cyflenwi microddata Llywodraeth Cymru i'r Banc

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Evch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) er mwyn i'r setiau data hyn gael eu defnyddio'n ddiogel gan ymchwilwyr at ddiben prosiectau dadansoddi data er budd y cyhoedd.

Rydym hefyd wedi cynnal trafodaethau adeiladol gyda phartneriaid eraill y llywodraeth (ee Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, DVLA ac awdurdodau lleol) i'w hannog a'u cefnogi i ddarparu eu data yn SAIL.

Os hoffech gysylltu, e-bostiwch [ADRUWales@llyw.cymru](mailto:ADRUWales@llyw.cymru).

## Llesiant Cymru

Mae disgwyl i adroddiad blynyddol Llesiant Cymru gael ei gyhoeddi ar 29 Medi eleni. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar lesiant yng Nghymru i'n helpu i asesu a ydym yn gwneud cynnydd yn erbyn y saith nod Llesiant cenedlaethol a osodwyd gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r adroddiad yn ystyried cynnydd yn erbyn y 50 o ddangosyddion cenedlaethol, ochr yn ochr ag ystod o ddata perthnasol eraill.

Fel yn 2021, bydd adroddiad [hawdd ei ddeall](#) yn cael ei gyhoeddi yn ychwanegol i'r prif adroddiad er mwyn helpu i sicrhau bod pawb yn gallu cael gwybodaeth ystadegol am Gymru.

Yn 2018, gwnaethom gyhoeddi adroddiad ar wahân ar [lesiant plant, ochr yn ochr â'r prif adroddiad Llesiant Cymru](#). Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys dadansoddiad o lesiant plant yn seiliedig ar y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Ysgolion, a defnyddiodd hefyd Arolwg Carfan y Mileniwm a ffynonellau eraill megis data ar blant mewn aelwydydd heb waith o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth. Rydym wedi derbyn adborth bod bwlch mewn data ar blant, felly eleni byddwn yn cynhyrchu adroddiad Llesiant plant a phobl ifanc wedi'i ddiweddarau ochr yn ochr â'r prif adroddiad.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Eleni fydd y tro cyntaf i adroddiad Llesiant Cymru gynnwys adrodd ar y cerrig milltir cenedlaethol. Mae cerrig milltir cenedlaethol yn cynorthwyo i fesur cyflymder y newid sydd ei angen i gyflawni'r nodau llesiant. Pennwyd **y set gyntaf o gerrig milltir cenedlaethol** ym mis Rhagfyr 2021 a bydd adroddiad arnynt eleni fel rhan o adroddiad Llesiant Cymru pan fo data ar gael.

**Ymgynghorir ar hyn o bryd ar yr ail set o gerrig milltir cenedlaethol** yn cael eu hymgyngori ar hyn o bryd, ac mae disgwyl iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd ym mis Hydref 2022.

Ym mis Rhagfyr 2021, cafodd **set wedi'i diweddarau o ddangosyddion cenedlaethol** eu gosod gennym hefyd. Byddwn yn adrodd ar rai o'r dangosyddion newydd hyn am y tro cyntaf eleni. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Canran y bobl mewn cyflogaeth, sydd ar gontractau parhaol (neu ar gontractau dros dro, ac nad ydynt yn chwilio am waith parhaol) ac sy'n ennill y Cyflog Byw gwirioneddol o leiaf
- Y gwahaniaeth mewn cyflogau ar sail rhyw, anabledd, ac ethnigrwydd
- Cyfran y gweithwyr y mae eu cyflog yn cael ei bennu drwy gydfargeinio
- Dinasyddiaeth fyd-eang weithredol yng Nghymru
- Canran yr aelwydydd sy'n gwario 30% neu mwy o'u hincwm ar gostau tai

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech roi adborth, gallwch gysylltu â ni ar [stephanie.howarth001@llyw.cymru](mailto:stephanie.howarth001@llyw.cymru).

## Arolwg Cenedlaethol Cymru

### Rhyddhau canlyniadau blwyddyn lawn 2021-22 am y tro cyntaf

Ar 14 Gorffennaf, cyhoeddwyd canlyniadau blwyddyn lawn ar gyfer **arolwg 2021-22 ar ein gwefan**. Hwn oedd y datganiad blwyddyn lawn cyntaf ers

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

2019-20 (cyn y pandemig COVID-19).

Ymhlith y pynciau a drafodwyd yn arolwg 2021-22 roedd:

- Yr ardal leol a'r amgylchedd: cydlyniant cymunedol, diogelwch mewn ardaloedd lleol, gwasanaethau awdurdodau lleol, ansawdd yr amgylchedd lleol, llygredd sŵn.
- Ymddygiadau ffordd iach o fyw: smygu, alcohol, deiet, BMI a gweithgarwch corfforol.
- Chwaraeon: cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol eraill.
- Ysgolion a phlant: boddhad gydag ysgol, mynediad at ddyfeisiau ar gyfer dysgu a theithio llesol i'r ysgol, a gweithgarwch corfforol plant.
- Cyflogadwyedd
- Addysg a hyfforddiant ôl-orfodol
- Defnydd a sgiliau rhyngryd
- Gwasanaethau iechyd: gwasanaethau meddygon teulu, iechyd deintyddol, gofal llygaid a chlyw
- Boddhad cyffredinol gyda Llywodraeth Cymru, gwasanaethau iechyd ac addysg
- Lles anifeiliaid anwes: perchnogaeth, lle cawsant eu caffael, microsglodion ac yswiriant
- Y celfyddydau: presenoldeb a chyfranogiad... a llawer mwy!

Cyhoeddwyd datganiad yn cwmpasu'r prif ganlyniadau gyda thablau a siartiau ychwanegol ar gael ar [y dangosydd canlyniadau](#). Bydd adroddiadau mwy manwl ar bynciau penodol yn cael eu cyhoeddi dros y 12 mis canlynol. Mae'r [holiadur ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) eleni a holl flynyddoedd eraill yr arolwg ar gael ar-lein.

Cysylltwch â ni yn [arolygon@llyw.cymru](mailto:arolygon@llyw.cymru) os oes gennych unrhyw gwestiynau.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

## Arolwg Cenedlaethol 2023-24 ymlaen

Mae cynigion ar gyfer y contract i gyflwyno Arolwg Cenedlaethol Cymru o 2023-24 ymlaen bellach wedi cau. Mae'r contract yn cwmpasu gwaith maes o fis Mawrth 2023 tan fis Mawrth 2028. Bydd y gwaith rhagarweiniol yn dechrau yn yr hydref. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â [ChrisMcGowan@llyw.cymru](mailto:ChrisMcGowan@llyw.cymru).

## Cyfiawnder cymdeithasol

I gael gwybodaeth am yr ystod ehangach o ystadegau sydd i'w cael mewn perthynas â thlodi, ewch i'n [tudalen ar gasglu ystadegau sy'n gysylltiedig â thlodi](#).

## Costau byw

Byddwn yn parhau i weithio gyda sefydliadau perthnasol i sicrhau bod data lefel Cymru ar fetrigau costau byw allweddol ar gael pan fo hynny'n bosibl. Fel y soniwyd uchod, rydym yn cynllunio dadansoddiad manylach ar dlodi tanwydd yn ystod y misoedd nesaf ac yn gweithio tuag at ddangosfwrdd tlodi tanwydd. Er na fydd dangosfwrdd rhyngweithiol COVID-19 yng Nghymru yn parhau i gael ei ddiweddarau, byddwn yn parhau i gyhoeddi data StatsCymru rheolaidd ar Daliadau Cymorth Brys a wnaed o'r Gronfa Cymorth Dewisol er mwyn darparu cipolwg amserol ar yr argyfwng costau byw.

Ym mis Awst, dosbarthwyd cylchlythyr gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn tynnu sylw at amrywiaeth o wybodaeth ac ystadegau swyddogol ar gostau byw yn y DU, gan gynnwys dolenni at [y crynodeb o Economi'r DU \(ONS\)](#) (Saesneg yn unig) sy'n rhoi gwybodaeth fras am gyhoeddiadau newydd ar gostau byw a'r

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

economi. Mae'r data diweddaraf ar chwyddiant, prisiau petrol, prisiau nwy, cyflogau, gweithgynhyrchu a gwerthiannau manwerthu yn ogystal â data arolygon o'r arolwg Barn a Ffordd o Fyw ynghylch pryderon am gostau byw a newidiadau mewn ymddygiadau yn cael eu cynnwys. Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd erthygl ym mis Awst ar ba gamau y mae pobl yn eu cymryd oherwydd costau byw cynyddol.

Mae **Cyngor ar Bopeth wedi cyhoeddi dangosfwrdd data** (Saesneg yn unig) sy'n rhoi cipolwg ar sut y mae'r argyfwng yn effeithio ar eu cleientiaid.

Yn ystod y misoedd nesaf rydym yn bwriadu ystyried y ffyrdd gorau o ddod â gwybodaeth allweddol ar gostau byw ynghyd, er mwyn gwneud data perthnasol yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr.

## **Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)**

Fel y crybwyllwyd yn y diweddariad ynghylch iechyd a gwasanaethau cymdeithasol uchod, rydym wedi cyhoeddi erthygl ystadegol sy'n rhoi cipolwg newydd ar **boblogaeth a gweithlu practisau cyffredinol a chlystyrau gofal sylfaenol yn ôl lefel amddifadedd**.

Ym mis Awst, gwnaethom hefyd gyhoeddi **erthygl newydd yn disgrifio'r patrymau a welir yn data dangosydd Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)** rhwng gwahanol gategorïau o amddifadedd hirsefydlog, a gefnogwyd gan **set ddata ar StatsCymru**.

Os hoffech gael eich hysbysu pan gaiff gwybodaeth ddiweddaraf MALIC ei chyhoeddi, e-bostiwch **[ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru](mailto:ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru)** i danysgrifio. Gallwn hefyd ddarparu **sesiynau gwybodaeth ynglŷn â MALIC 2019**. Os hoffech drefnu sesiwn o'r fath ar eich cyfer chi, eich sefydliad neu'ch rhwydwaith cysylltwch â ni i drafod hyn.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **<https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html>** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **[hawlfraint](#)**.



## Yr ymateb i Wcráin

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref, yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau (DLUHC) a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i gefnogi cyhoeddi data ar ymateb y DU i'r rhyfel yn Wcráin, gan gynnwys data ar y rhai sy'n ceisio lloches yng Nghymru. Dyma'r cyhoeddiadau presennol:

- **Data fisâu y Cynllun Teuluoedd o Wcráin, y Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin (Cartrefi i Wcráin) a'r Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin (Swyddfa Gartref)** (Saesneg yn unig) yn cynnwys data ar lefel y DU ar gyfer nifer y ceisiadau fisa a gadarnhawyd (gan gynnwys y rhai a dynnwyd yn ôl, a wrthodwyd ac sy'n aros i gael eu cwblhau), fisâu a gyhoeddwyd a'r nifer sy'n cyrraedd y DU o dan y Cynllun Teuluoedd o Wcráin a'r Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin. Cyhoeddir hefyd nifer y ceisiadau a dderbyniwyd, a ganiatawyd ac sy'n aros i gael eu cwblhau o dan y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin. Bydd y data hyn yn cael eu diweddarau a'u cyhoeddi am 9.30am ar foreau lau hyd nes yr hysbysir fel arall.
- **Y Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin: data fisa yn ôl gwlad, awdurdod lleol haen uchaf ac is (Yr Adran Codi Lefelu, Tai a Chymunedau)** (Saesneg yn unig) yn cynnwys y DU, y pedair gwlad a data awdurdodau lleol ar gyfer nifer y ceisiadau fisa a gadarnhawyd, fisâu a gyhoeddwyd a'r nifer sy'n cyrraedd y DU o dan y Cynllun Noddi ar gyfer Wcráin. Mae data i Gymru ar gael ar lefel yr awdurdod lleol ar gyfer fisâu gyda noddwyr unigol (lle mae lleoliad yn cael ei bennu yn ôl cyfeiriad noddwr, neu gyfeiriad llety os na fydd deiliad y fisa yn aros gyda'r noddwr), ac yn genedlaethol ar gyfer fisâu a noddir gan Lywodraeth Cymru. Bydd y data hyn yn cael eu diweddarau a'u cyhoeddi am 9.30am ar foreau lau hyd nes yr hysbysir fel arall.
- **Y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin a'r Cynllun Teuluoedd o Wcráin: data fisa yn ôl oedran a rhyw yr ymgeisydd (Yr Adran Codi Lefelu, Tai a Chymunedau)** (Saesneg yn unig) yn cynnwys data'r DU a'r pedair gwlad ar oedran a rhyw ymgeiswyr fisa, deiliaid fisa a'r rhai sy'n cyrraedd y DU. Mae

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

dadansoddiadau ar gael ar gyfer y Cynllun Teuluoedd o Wcráin ar lefel y DU, ac ar gyfer y Cynllun Nawdd ar gyfer Wcráin ar lefel Cymru. Mae dadansoddiad pellach yn ôl math o noddwr (unigol neu Lywodraeth Cymru) ar gael ar gyfer yr olaf.

- Arolwg Trosolwg o Ymateb Dyngarol y DU arolwg o'r rhai sy'n cyrraedd y DU o Wcráin. Nod yr arolwg hwn yw dal profiadau, nodweddion ac anghenion gwasanaeth deiliaid fisa sy'n dod i mewn i'r DU o dan Gynlluniau Dyngarol Wcráin. Mae dwy don o'r arolwg wedi'u cynnal hyd yma, ddiwedd mis Ebrill ([canlyniadau'r DU, y prif ganlyniadau ar gyfer Cymru \(ONS\)](#)) (Saesneg yn unig) a chanol mis Mehefin ([canlyniadau'r DU \(ONS\), y prif ganlyniadau ar gyfer Cymru \(ONS\)](#)) (Saesneg yn unig) yn ogystal ag arolwg dilynol i'r rhai a ymatebodd ddiwedd Ebrill.
- [Arolwg Noddwyr Cartrefi i Wcráin \(ONS\)](#) (Saesneg yn unig) arolwg o bobl yn y DU sydd wedi cofrestru fel noddwyr ar gyfer y cynllun Cartrefi i Wcráin. Nod yr arolwg hwn yw dal profiadau noddwyr y cynllun Cartrefi i Wcráin sy'n darparu llety i'r rhai sy'n ffoi rhag y gwrthdaro yn Wcráin, gan gynnwys gwybodaeth am drefniadau lletya, nodweddion noddwyr, y cymorth a ddarperir, bwriadau a heriau'r noddwyr.

## Diogelwch cymunedol

Bydd tri chyhoeddiad sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi. Dyma nhw:

- [Ystadegau achosion tân ac achub](#)
- [Perfformiad awdurdodau tân ac achub](#)
- [Ystadegau gweithredol y Gwasanaeth Tân ac Achub](#)

I gael rhagor o wybodaeth, e-bostiwch [ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru](mailto:ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru).

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cydraddoldeb

Bydd rhai o'n allbynnau cydraddoldeb rheolaidd sy'n deillio o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth Blynyddol yn cael eu cyhoeddi'n hwyrach na'r arfer oherwydd gwaith ail-bwysoli ffynhonnellau sy'n parhau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae hyn yn effeithio ar ein [hamcangyfrifon ethnigrwydd a hunaniaeth genedlaethol](#) chwarterol yn ogystal â'n datganiad [Cyfeiriadedd Rhywiol](#) blynyddol.

## Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd

Rydym wedi datblygu ein Strategaeth Tystiolaeth Cydraddoldeb sy'n disgrifio ein cwrpas, cylch gwaith a'n blaenoriaethau, ac rydym yn gobeithio ei chyhoeddi ym mis Medi 2022. Mae blaenoriaethau ymchwil pob uned yn cael eu datblygu gyda rhanddeiliaid yn seiliedig ar ymrwymadau sydd eisoes wedi'u gwneud a gofynion sy'n dod i'r amlwg o'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau, y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ a'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl.

Rydym wedi bod yn gweithio drwy sut a phryd y gallwn ddefnyddio dulliau cydgynhyrchiol drwy gydol y cylch tystiolaeth. Rydym yn y broses o ymchwilio i sut y gallem oresgyn rhai rhwystrau wrth fabwysiadu'r ffordd hon o weithio.

Rydym hefyd yn gweithio ar y tasgau canlynol:

- archwiliad tystiolaeth a fydd yn rhoi dealltwriaeth o'r wybodaeth sydd ar gael, y bylchau a'r anghysondebau sydd angen mynd i'r afael â nhw.
- gweithio gyda'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu nodau, camau gweithredu a mesurau.
- gwaith comisiynu i helpu i ddeall sut y gallwn gasglu tystiolaeth yn unol â'r model cymdeithasol o anabledd.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Evch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

- datblygu arolwg o ddata cydraddoldeb ar draws cyrff y sector cyhoeddus.
- gweithio'n agos gyda thîm y Tasglu Anabledd a'r Cynllun Gweithredu LHDTC+ i ddarparu tystiolaeth i gefnogi eu gwaith.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â  
[YrUnedTystiolaethCydraddoldeb@llyw.cymru](mailto:YrUnedTystiolaethCydraddoldeb@llyw.cymru)

## Masnach

### Arolwg Masnach Cymru

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddadansoddi canfyddiadau trydydd Arolwg Masnach Cymru, blwyddyn gyfeirio 2020. Disgwylwyd cyn hyn y byddai'r canlyniadau yn cael eu cyhoeddi ym mis Mai 2022. Fodd bynnag, bu oedi yn y broses oherwydd bod angen cynnal gwiriadau ansawdd pellach ac i gyflwyno prosesau priodoli newydd i'r fethodoleg gan fod sawl blwyddyn o ddata wedi'u casglu erbyn hyn.

Bydd gwaith maes ar gyfer pedwaredd flwyddyn yr arolwg yn cael ei lansio ym mis Medi a bydd yn rhedeg tan fis Rhagfyr gan gasglu data 2021.

Cwblhawyd ymchwil ansoddol ddilynol ynghylch 'Modd 5' Masnach mewn Gwasanaethau a Rheolau Tarddiad a chyhoeddir y canfyddiadau yn haf 2022.

### Masnach Nwyddau Rhyngwladol Cymru

Cyhoeddwyd y prif ganlyniadau o Ystadegau Masnach Ranbarthol ar gyfer masnach nwyddau rhyngwladol Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2022 gan CThEM ym mis Gorffennaf 2022: [Masnach nwyddau rhyngwladol Cymreig: Ebrill 2021 i Fawrth 2022](#)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Ochr yn ochr â'r pennawd uchod, mae'r **dangosfwrdd masnach rhyngweithiol** hefyd wedi'i ddiweddarau:

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â [ystadegau.masnach@llyw.cymru](mailto:ystadegau.masnach@llyw.cymru)

## Trafnidiaeth

Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi amcangyfrifon o **ddamweiniau ffyrdd wedi'u cofnodi gan yr heddlu** ac **anafusion ffyrdd yr adroddwyd amdanynt** yng Nghymru ar gyfer 2021 a oedd yn parhau i ddangos yr effaith a gafodd COVID-19 ar deithio ledled Cymru.

Ym mis Awst, gwnaethom ddiweddarau ein **dangosfwrdd rhyngweithiol ar gyfer damweiniau ffyrdd wedi'u cofnodi gan yr heddlu** ar gyfer chwarter cyntaf 2022 (Ionawr i Fawrth 2022). Mae hyn yn cynnwys nifer o achosion o ddadansoddiadau gan gynnwys difrifoldeb neu anaf a math o ddefnyddiwr ffordd.

I roi adborth ac i wneud sylwadau, cysylltwch â [ystadegau.trafnidiaeth@llyw.cymru](mailto:ystadegau.trafnidiaeth@llyw.cymru)

## Y Gymraeg

### Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth

Mae data ar y Gymraeg o Arolwg Blynyddol y Boblogaeth: Ebrill 2021 i Fawrth 2022 y bwriadwyd eu cyhoeddi ar 31 Awst wedi'u canslo. Mae hyn oherwydd yr oedi cyn bod y data Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth diwygiedig, a oedd wedi'u hailbwysoli a'u gywiro ar gael oddi wrth yr Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Mae'r datganiadau hyn wedi'u diweddarau ar ein tudalennau ystadegau ac ymchwil ar y wefan i hysbysu defnyddwyr ynghylch y [canslo](#). Bydd data ar gyfer y cyfnod Ebrill 2021 i Fawrth 2022 nawr yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â data ar gyfer y cyfnod Gorffennaf 2021 i Fehefin 2022 y bwriedir eu cyhoeddi ar hyn o bryd ym mis Hydref 2022.

## Cyfrifiad

Y cyfrifiad yw'r ffynhonnell awdurdodol ar nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, a dyma sut y byddwn yn mesur cynnydd yn erbyn yr uchelgais o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol [ganlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 \(ONS\)](#) (Saesneg yn unig) ar 28 Mehefin 2022. Roedd y rhain yn amcangyfrifon o nifer y bobl ac aelwydydd yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi cyhoeddi [rhan dau o'u hymateb i'r ymgynghoriad diweddar ar allbynnau Cyfrifiad 2021 \(ONS\)](#) (Saesneg yn unig). Fel rhan o'u hymateb, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi ymrwymo i ymchwilio i'r posibilrwydd o gyhoeddi set ddata ehangach am yr iaith Gymraeg.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn disgwyl gallu cyhoeddi canlyniadau'r Cyfrifiad fesul pwnc yn ystod tymor yr hydref a'r gaeaf eleni. Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am gyhoeddi'r canlyniadau ar y Gymraeg, yn yr un modd â chanlyniadau Cyfrifiad 2011. Mae disgwyl i ganlyniadau ar y Gymraeg gael eu cyhoeddi ym mis Hydref neu fis Tachwedd. Mae rhagor o fanylion am y cynlluniau cyhoeddi ar gael ar [wefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol](#).

## Cyfrifiad Ysgol

Cyhoeddwyd y data diweddaraf o Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

Disgyblion Chwefror 2022 ar 31 Awst. Mae nifer o ddangosyddion yr iaith Gymraeg ar gael gan gynnwys gwybodaeth am gyfrwng yr ysgol, gallu disgyblion ac athrawon yn y Gymraeg ac a yw disgyblion yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Yr Iaith Gymraeg (StatsCymru)

I gael rhagor o wybodaeth, e-bostiwch [DataIaithGymraeg@llyw.cymru](mailto:DataIaithGymraeg@llyw.cymru).

## Amaethyddiaeth a'r amgylchedd

Cyhoeddwyd **ffigyrau ailgylchu chwarterol diweddaraf yr awdurdod lleol** ar 28 Gorffennaf ar gyfer y cyfnod o fis Hydref i mis Rhagfyr 2021. Mae disgwyl y ffigyrau blynyddol llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

Mae'r arolwg blynyddol o dir amaethyddol a da byw ar y gweill gydag amcangyfrifon lefel Cymru i'w cyhoeddi ym mis Tachwedd.

I gael rhagor o wybodaeth, e-bostiwch [ystadegau.amaethyddiaeth@llyw.cymru](mailto:ystadegau.amaethyddiaeth@llyw.cymru).

## Poblogaeth a demograffeg

Cyhoeddir **diweddariad demograffeg chwarterol** ar wahân sy'n cynnwys popeth sy'n ymwneud â'r boblogaeth.

I gael rhagor o wybodaeth neu i gysylltu, e-bostiwch [ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru](mailto:ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).

# Cysylltiadau ar gyfer ystadegau Llywodraeth Cymru

## Ymholiadau cyffredinol ynghylch ystadegau

E-bost: [desg.ystadegau@llyw.cymru](mailto:desg.ystadegau@llyw.cymru)

## Pwnc-benodol

[Cysylltiadau ar gyfer ystadegau](#)

## Twitter

[YstadegauCymru](#)

## Cylchlythyr electronig a gwasanaeth hysbysiadau Llywodraeth Cymru

[Newyddion a hysbysiadau](#)

## Ymholiadau gweinyddol

E-bost [GweinydduGGD@llyw.cymru](mailto:GweinydduGGD@llyw.cymru)

Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.

Ewch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).



**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**

Drllennwch ein [datganiad hygyrchedd](#) i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i <https://www.llyw.cymru/diweddariad-chwarterol-ystadegau-cymru-medi-2022-html> i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am [hawlfraint](#).